Powys

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd

DIWEDDARIAD: TACHWEDD/RHAGFYR 2019

*Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau Castell-nedd Port Talbot a Phowys i ddatblygu cynigion am Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd (GCRE) ar safle cloddio glo brig Nant Helen a safle golchfa lo Onllwyn ar flaenau Cymoedd Dulais a Thawe. Mae'r cynigion yn rhan ychwanegol bwysig o strategaeth adnewyddu'r safle a gynigir gan Celtic Energy, gan weithredu fel sbardun i arloesi, buddsoddi a thwf y diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru, y DU yn ehangach ac yn rhyngwladol.*

*Mae llawer o gefnogaeth a brwdfrydedd wedi bod ar gyfer y prosiect ac rydym yn parhau i ddatblygu'r achos busnes a symud ymlaen â chynlluniau i gyflwyno cais cynllunio yn gynnar yn 2020.*

**Y DIWEDDARIAD HWN**

- Sicrhau rhagoriaeth
- Briffio prosiect a gwaith ymgysylltu cynnar
- Gwleidyddion allweddol yn rhoi sêl bendith i gynlluniau
- Cyflwyno asesiad o botensial yr EIA
- Camau nesaf

## Cadarnhau'r achos busnes

Fel rhan o waith datblygu cynllun busnes ar gyfer y prosiect, cynhaliwyd gwaith 'profi marchnad sylfaenol' helaeth gennym â rhanddeiliaid yn y diwydiant rheilffyrdd yn gynharach eleni. Galluogodd hyn inni archwilio'r angen busnes a chynnwys cyngor ac adborth technegol yn y dyluniad uwchgynllun cychwynnol. Rydym yn parhau i drafod ein cynlluniau cychwynnol â'r diwydiant rheilffyrdd wrth inni geisio sefydlu prosiect dichonadwy a chynaliadwy y gellir buddsoddi ynddo sy'n gallu mynd rhagddo, o drafodaethau i ddylunio a chyflawni.

Fel rhan o'r broses hon, rydym wedi sefydlu Grŵp Gwerthuso Prosiect (PEG), sy'n cynnwys amrywiaeth o arweinwyr o'r diwydiant rheilffyrdd sy'n archwilio'r gwaith a wnaed ar y prosiect hyd yma, yn dadansoddi dichonoldeb y prosiect ac yn asesu'r ffordd orau ymlaen.

Mae'r gweithgaredd yma yn garreg filltir bwysig yn esblygiad y prosiect a disgwylir y bydd yn dod i derfyn yn gynnar yn y flwyddyn newydd gan hwyluso camau nesa.








# Sicrhau rhagoriaeth

I roi buddsoddiad ac arloesedd ar garlam yn y Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd arfaethedig, rydym hefyd yn gweithio i sefydlu Cyflymydd Arloesedd fel rhan o'r prosiect. Bydd hyn yn dod â'r diwydiant rheilffyrdd ac academia ynghyd i arloesi, datblygu, profi a dilysu atebion newydd ar gyfer y diwydiant rheilffyrdd a fydd yn cefnogi ac yn cyflymu'r broses fasnacheiddio a mynediad at y farchnad technolegau sy'n dod i'r amlwg.

I lansio'r rhaglen hon ac ystyried y cyfleoedd sy'n deillio ohoni, cynhaliwyd gweithdy gennym ym mis Medi y daeth arbenigwyr o faes y rheilffyrdd ato o Brifysgolion Caerdydd, Abertawe, De Cymru, Birmingham, Leeds a Southampton; arbenigwyr diwydiant o Network Rail, Cymdeithas y Diwydiant Rheilffyrdd, Bwrdd Safonau Diogelwch y Rheilffyrdd a'r Grŵp Cyflawni Rheilffyrdd; Canolfannau Ymchwil a Datblygu gan gynnwys Innovate UK ac AMRC Cymru; a Llywodraeth Cymru.

Roedd y gweithdy yn llawn gwybodaeth ac yn cynnig syniadau craff, gan nodi sawl gofyniad allweddol, gan gynnwys:

- y gallu i ddangos ac arddangos cynnyrch/ffatrïoedd, peiriannau, cymwysiadau a gwasanaethau newydd;
- y gallu i ddiwallu anghenion technolegau digidol a data sy'n dod i'r amlwg; a'r
- angen i fod yn hyblyg ac yn ehangadwy ar gyfer gofynion y dyfodol.

Bellach, rydym yn ystyried sut i ddatblygu'r cyfleoedd cadarnhaol a nodwyd yn y gweithdy ac ystyried yn fanwl y ffyrdd o sefydlu Cyflymydd Arloesedd fel rhan hanfodol o gynnig cyffredinol y GCRE.

# Briffio prosiect a gwaith ymgysylltu cynnar

Mae gwaith ymgysylltu cynhwysfawr yn hanfodol i ddatblygu'r cynigion a'r canlyniadau gorau posib. Yn ogystal â thrafodaethau â rhanddeiliaid arbenigol, rydym yn cynnal gwaith ymgysylltu cam wrth gam i alluogi trigolion a rhanddeiliaid lleol i helpu wrth lywio uwchgynllun y safle.

Cynhaliwyd gwaith ymgysylltu cynnar gennym â thrigolion ac amrywiaeth eang o randdeiliaid lleol ac yn y gymuned (2 Gorffennaf hyd at 7 Hydref 2019) er mwyn ystyried y cyfleoedd a'r cyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig â'r dyluniad cychwynnol ac er mwyn helpu i nodi sut y gallwn fwyafu'r buddion cymdeithasol ac economaidd wrth leihau effeithiau amgylcheddol.

Anfonwyd llythyr a oedd yn cyflwyno'r cynigion am Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yng Nghymru ac yn hysbysebu'r digwyddiadau galw heibio at fwy na 9,500 o drigolion a chyfeiriadau busnesau, ac at fwy na 300 o randdeiliaid.

Trefnwyd digwyddiadau galw heibio yn Onllwyn ac yn Aber-craf ym mis Gorffennaf a chynhaliwyd digwyddiad ychwanegol yng Nghoelbren yn gynnar ym mis Medi mewn ymateb i geisiadau gan drigolion lleol. Yn ogystal â'r digwyddiadau cyhoeddus hyn, cynhaliwyd rhagolwg i randdeiliaid gennym a sesiwn galw heibio i staff yn swyddfa Celtic Energy ar safle Nant Helen, a rhoddwyd cyflwyniad i Gyngor Cymunedol Tawe Uchaf a chwrddwyd â chynrychiolwyr etholedig.

Daeth mwy na 450 o bobl i'r digwyddiadau ymgysylltu cynnar hyn i drafod y cynigion a oedd yn dod i'r amlwg gydag aelodau o dîm y prosiect a derbyniwyd mwy na 70 o ymatebion (drwy holiadur, e-bost neu dros y ffôn). Roedd y rhan fwyaf o bobl siaradon ni â nhw yn gefnogol o'r prosiect a'r buddion y byddai'n dod ag ef i'r ardal leol ac ehangach. Codwyd rhai materion allweddol gan bobl leol, a bydd y rhain yn cael eu hystyried a byddwn yn mynd i'r afael â nhw drwy'r Asesiad o Effaith Amgylcheddol, gan gynnwys sŵn, dirgryniad, ansawdd aer a llygredd golau. Codwyd y mater o dir comin hefyd, a chaiff hyn ei ystyried yn ofalus mewn trafodaethau â phartïon perthnasol.

Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu'r holl adborth a chaiff adroddiad ei gyhoeddi ar wefan y prosiect maes o law sy'n amlygu'r materion allweddol, y cyfleoedd a'r materion i'w hystyried a chynnig ymateb iddynt wrth i'r prosiect fynd rhagddo.







# Gwleidyddion allweddol yn rhoi sêl bendith i gynlluniau

Ymwelodd gwleidyddion allweddol, gan gynnwys Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth Cymru, Lee Waters AC, Aelod o Bwyllgor Dethol Materion Cymreig y DU Tonia Antoniazzi AS ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru'r Wrthblaid, Christina Rees AS, â'r safle ym mis Medi i glywed am y cynigion a sut y gallant ddod â buddsoddiad, swyddi a thwf economaidd sylweddol i'r rhanbarth.

Trefnwyd yr ymweliad gan Gymdeithas y Diwydiant Rheilffyrdd (RIA), y corff masnachu cenedlaethol ar gyfer mwy na 290 o gyflenwyr rheilffyrdd, sydd wedi bod yn cefnogi cynlluniau Llywodraeth Cymru. Roedd yr ymweliad yn rhan o Raglen Gymrodoriaeth y RIA, sy'n annog gwleidyddion i ymweld â safleoedd rheilffyrdd allweddol i gael profiad ymarferol o'r diwydiant a gweld ei gyfraniad at economi'r DU o lygad y ffynnon.

**Dywedodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru'r Wrthblaid, Christina Rees AS**: "TBydd y datblygiad yn denu swyddi hirdymor â chyflogau da, drwy gyflogaeth uniongyrchol a thrwy'r gadwyn gyflenwi, yn ogystal â chyfle am adnewyddu cynaliadwy ledled ardal Cwm Dulais a De Powys.

"Wrth reswm, rwyf wrth fy modd y lleolir y prosiect yn rhannol yn fy etholaeth i, ond rwyf yn hyderus y bydd ei effeithio i'w gweld ledled Cymru. Byddaf yn gwneud fy ngorau glas i gefnogi Llywodraeth Cymru, cynghorau lleol a phartneriaid allweddol eraill i wireddu'r cynnig hwn."



*"Dyma brosiect mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddatblygu mewn ymateb i alw gan ddiwydiant ac rydym yn ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid yn y sectorau preifat a chyhoeddus i'w gyflawni. O gofio ei rôl flaenllaw yn y diwydiant, rwyf wrth fy modd bod Cymdeithas y Diwydiant Rheilffyrdd yn dangos diddordeb mor gadarnhaol. Mae'r arwydd clir o'r cynnydd sylweddol a wnaed gennym hyd yma."*

**Lee Waters AC, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth Cymru**

**Meddai'r Cynghorydd Rosemarie Harris, Arweinydd Cyngor Sir Powys:** "Mae'r prosiect arloesol hwn, a fyddai'n cynnig cyfleuster profi cerbydau o bwysigrwydd rhyngwladol mawr ei angen ac yn denu buddsoddiad ar lefel uchel, a fyddai'n arwain at fuddion ar gyfer y rhanbarth, i'w groesawu'n fawr. Edrychwn ymlaen yn fawr iawn at fynd rhagddo gyda'r prosiect hwn hyd at gyflawniad llwyddiannus, gan sicrhau ein bod yn cael y canlyniadau economaidd uchaf posib o'r cynnig cwbl unigryw hwn."

**Dywedodd Cynghorydd Onllwyn Dean Cawsey**: "Mae'n gyffrous iawn i weld y prosiect yn datblygu ac mae'r Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yn gynnig gwych ar gyfer ward Onllwyn, Cwm Dulais a'r ardaloedd cyffiniol. Dyma gyfle unigryw mewn cenhedlaeth i ddenu swyddi o safon mawr eu hangen a ffyniant i'n cymoedd, gan adael olion glân, hirdymor yn dilyn degawdau o ddad-ddiwydiannu Mae'n glir bod y rheilffyrdd yn sector sy'n ehangu ac mae'r posibilrwydd o gynnwys ein cymunedau yn rhan o'i ddyfodol yn gyfle arwyddocaol."

Mae'r rheilffyrdd yn sector hanfodol i economi Cymru, gan gynnig £1.14 biliwn mewn tyfiant economaidd, yn cyflogi mwy na 20,000 o bobl yn creu £338 miliwn mewn refeniw trethi. Gyda'r Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd arfaethedig, byddai'n cyfrannu hyd yn oed yn fwy.



# Cyflwyno asesiad o botensial yr EIA

Ar ddiwedd mis Medi, cyflwynwyd cais Asesiad o Effaith Amgylcheddol (EIA) i asesu'r potensial am Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd i'r awdurdodau cynllunio lleol.

Bydd hyn yn cadarnhau'r paramedrau a helaethder yr ymchwil a'r arolygon sy'n ofynnol er mwyn asesu a nodi effeithiau cadarnhaol ac andwyol sy'n deillio o weithgareddau adeiladu a gweithredu'r prosiect ar yr amgylchedd lleol a'r boblogaeth leol.

Bydd yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn cynnwys nifer o faterion amgylcheddol gwahanol, gan gynnwys bioamrywiaeth, sŵn a dirgryniad, ansawdd aer, traffig a chludiant, hydroleg a llifogydd, amgylchiadau'r tir, treftadaeth ddiwylliannol, tirwedd a'r effaith weledol, iechyd a lles a newid yn yr hinsawdd.

Pan fydd yr amgylchiadau amgylcheddol presennol ar draws y safle wedi'u cadarnhau ac ar ôl gwnaed asesiad o'r effeithiau andwyol tebygol, caiff mesurau lliniaru eu cynnig. Mae'r rhain yn fesurau y gellid eu hystyried i leihau'r effeithiau andwyol neu gryfhau'r effeithiau buddiol.

## Y CAMAU NESAF

Bydd adborth o'r gwaith ymgysylltu cynnar, sef gweithdy'r Grŵp Gwerthuso Prosiect a'r Cyflymydd Arloesedd, yn ogystal â chanlyniadau'r Asesiad o Effaith Amgylcheddol yn llywio'r cynigion terfynol ar gyfer Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yng Nghymru.

Yn y cyfamser, mae Celtic Energy yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn cyflawni'r prosiect.

Bydd cynigion ar gyfer yr uwchgynllun terfynol a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru yn sail i ymgynghoriad statudol cyn cyflwyno cais cynllunio am Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yn gynnar yn 2020.

## MANYLION CYSWLLT

E-bost: consultation@grasshopper-comms.co.uk

Gwefan: https://gov.wales/canolfan-fyd-eang-rhagoriaeth-rheilffyrdd

Ffôn: 01639 865515